

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus o'r angen i ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

Caplan y Maer i ddechrau'r cyfarfod trwy arwain pawb sy'n bresennol mewn Gweddi.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. COFNODION

Cadarnhau fel cofnod cywir gofnodion cyfarfodydd canlynol y Cyngor a'i Bwyllgorau (copïau'n amgaeëdig):

Cyfarfod y Cyngor - 18fed Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 56-66

Pwyllgor Cynllunio - 18fed Hydref 2017 - Rhifau Cofnod 26-28

Pwyllgor Cynllunio - 1af Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 29-31

Cadarnhau neu fel arall:

Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol - 1af Tachwedd 2017 - Rhifau Cofnod 74-86

3. ADRODDIAD Y MAER

Derbyn manylion y digwyddiadau a fynychwyd gan y Maer a'r Dirprwy Faer dros y mis diwethaf (copi'n amgaeëdig).

4. CYFLWYNIAD: SWYDDOG MONITRO, CYNGOR SIR DDINBYCH

Derbyn cyflwyniad naill ai gan y Swyddog Monitro neu ei ddirprwy mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad.

5. AWDURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CREDYDWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

6. YMGYNGHORIAD: COMISIWN FFINIAU CYMRU – AROLYGU'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR DDINBYCH

Derbyn gohebiaeth (copi'n amgaeëdig) gan Gomisiwn Ffiniau Cymru yn hysbysu o arolwg o'r trefniadau etholaethol ar gyfer Sir Ddinbych ac i benderfynu ar ymateb y Cyngor Tref.

7. EITEMAU ER GWYBODAETH

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain a gytunwyd gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

8. HOLI AC ATEB

Derbyn cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd sy'n bresennol.

9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

10. PANEL CYDNABYDDIAETH ARIANNOL CYMRU – CYNIGION DRAFFT 2018

Ymhellach i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 1af Tachwedd 2017, ystyried a newid yr ymateb drafft i'r ymgynghoriad uchod (copi'n amgaaëdig).

11. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU'R HEDDLU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau a dderbyniwyd gan Heddlu Gogledd Cymru (manyion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

12. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Maer i ddirwyn y cyfarfod i ben.